Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF

Unigolion sy'n hunangyflogedig neu'n gyfarwyddwr cwmni ar gyflog

# Hawlio am enillion a gollwyd yn ystod gwasanaeth rheithgor

**Dylech ond defnyddio'r ffurflen hon os ydych yn hunangyflogedig neu'n gyfarwyddwr cwmni ar gyflog.**

Gallwn ad-dalu hyd at £64.95 y dydd i chi am enillion a gollwyd yn ystod 10 diwrnod cyntaf eich gwasanaeth rheithgor. Ar gyfer treialon hirach, gwiriwch y cyfraddau ar y daflen lwfansau neu ewch i www.gov.uk/gwasanaeth-rheithgor.

Gwiriwch dudalen 3 ar gyfer y dystiolaeth y mae'n rhaid ichi atodi.

Pan fyddwch wedi llenwi'r ffurflen hon, rhowch y ffurflen i'r rheolwr rheithgor yn y llys.

## 1. Eich manylion

**1.1** Eich enw llawn

**1.2** Eich rhif rheithiwr

**1.3** Teitl eich swydd

**1.4** Enw a chyfeiriad eich busnes


©Hawlfraint y Goron 2023

## 2. Eich incwm

**2.1** Pa ddiwrnodau o'r wythnos ydych chi'n gweithio fel arfer?

- ☐ Dydd Llun
- ☐ Dydd Mawrth
- ☐ Dydd Mercher
- ☐ Dydd Iau
- ☐ Dydd Gwener

**C2.1** Ni allwn eich ad-dalu am benwythnosau na gwyliau banc, gan fod y llys ar gau ac ni fyddwch yn colli incwm oherwydd gwasanaeth rheithgor ar y diwrnodau hyn.

**2.2** Beth yw eich cyflog dyddiol gros cyn unrhyw ddidyniadau?

☐ y diwrnod

**2.3** Os na fydd angen ichi fynychu'r llys ar ddiwrnod penodol, a fyddwch chi'n gallu dychwelyd i'r gwaith?

| | | |
|---|---|---|
| Am ddiwrnod llawn | ☐ Byddaf | ☐ Na fyddaf |
| Am hanner diwrnod | ☐ Byddaf | ☐ Na fyddaf |
| Cyn i'r pythefnos ddod i ben | ☐ Byddaf | ☐ Na fyddaf |

## Datganiad

Rwy'n cadarnhau bod yr wybodaeth rwyf wedi'i rhoi yn gywir. Rwyf hefyd yn deall y gallaf gael fy erlyn os rwyf wedi rhoi gwybodaeth anwir neu wybodaeth gamarweiniol.

Llofnod

Printiwch eich enw

Dyddiad

Diwrnod Mis Blwyddyn

Rhif ffôn

Cyfeiriad e-bost

Efallai byddwn yn cysylltu â chi i wirio manylion am eich enillion.

# Tystiolaeth y mae'n rhaid ichi ei darparu

## Os ydych yn hunangyflogedig

Rhaid ichi atodi **un** o'r canlynol:

- ☐ **Eich ffurflen dreth ddiweddaraf –** rhaid i hon ddangos yr incwm blynyddol y gwnaethoch ddefnyddio i gyfrifo eich enillion dyddiol gros. Dangoswch eich gwaith cyfrifo.

**neu**

- ☐ **Llythyr gan eich cyfrifydd yn cadarnhau** beth yw eich enillion dyddiol gros ar gyfartaledd. Dylech hefyd gynnwys tystiolaeth gan Cyllid a Thollau EF (HMRC) sy'n dangos eich Cyfeirnod Treth Unigryw (UTR) a'ch bod wedi'ch cofrestru'n hunangyflogedig.

**neu**

- ☐ **Llythyr gan gwmni a fyddai wedi rhoi gwaith i chi** ond roedd rhaid ichi wrthod y gwaith oherwydd eich gwasanaeth rheithgor. Rhaid i hyn gadarnhau beth fyddai eich cyfradd dyddiol gros wedi bod. Rhaid ichi hefyd atodi tystiolaeth gan HMRC eich bod wedi'ch cofrestru'n hunangyflogedig ac sy'n dangos eich cyfeirnod UTR.

Os ydych newydd gofrestru fel unigolyn hunangyflogedig, neu os nad oes gennych unrhyw un o'r dogfennau hyn, siaradwch â'ch rheolwr rheithgor.

# Os ydych yn gyfarwyddwr cwmni ar gyflog

Rhaid ichi atodi **un** o'r canlynol:

- ☐ **Eich ffurflen dreth ddiweddaraf** – rhaid i hon ddangos yr incwm blynyddol y gwnaethoch ddefnyddio i gyfrifo eich enillion dyddiol gros.

**neu**

- ☐ **Llythyr gan eich cyfrifydd yn cadarnhau** beth yw eich enillion dyddiol gros ar gyfartaledd. Dylech hefyd gynnwys tystiolaeth gan Cyllid a Thollau EF (HMRC) sy'n dangos eich cyfeirnod UTR a'ch bod wedi'ch cofrestru fel cyfarwyddwr cwmni ar gyflog.

Os nad oes gennych unrhyw un o'r dogfennau hyn, siaradwch â'ch rheolwr rheithgor.

Yn y rhan fwyaf o achosion ni fydd gwasanaeth rheithgor yn effeithio ar ddifidendau. Os yw eich difidendau chi wedi'u heffeithio a'ch bod yn gallu darparu tystiolaeth ddogfennol o hyn, bydd angen ichi hefyd ddarparu llythyr gan eich cyfrifydd i brofi eich bod yn cael rhan o'ch incwm drwy ddifidendau. (Ni all y llys ad-dalu unrhyw gostau a gafwyd am ddefnyddio cyfrifydd).

> Os byddwch yn cael taliad enillion a gollwyd gennym, rhaid i chi ddatgan hwn fel incwm ar eich ffurflen dreth.